**Leighton Andrews AC/AM**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg & Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Children, Education & Lifelong Learning**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Y Pwyllgor Cyllid**
**FIN(3)-01-10 : Papur 6**

Ein cyf/Our ref
SF/LA/0011/2010

Angela Burns,
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

DD/MM/YY

**Effeithlonrwydd mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr yn gofyn am nodyn ar gyllideb 2010-11 ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch.

Yn unol â holl Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd dyraniad cyllid cyffredinol APADGOS ar gyfer 2010-11 yn adlewyrchu gofyniad i sicrhau rhagor o effeithlonrwydd ac arbedion o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol ar gyfer 2010-11 o 1.6 y cant, fel y cam cyntaf ar y llwybr tuag at effeithlonrwydd yn y tymor hwy.

Gan ystyried addasiadau a dyraniadau eraill, roedd Cyllideb Derfynol APADGOS fel a ganlyn:

Tabl 1: Prif Grŵp Gwariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

| | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|
| | Cyllideb Atodol | Cyllideb Derfynol |
| | £000 | £000 |
| Refeniw DEL | 1,677,816 | 1,692,892 |
| Cyfalaf DEL | 264,841 | 182,892 |
| Cyfanswm DEL | 1,942,657 | 1,875,784 |
| | | |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 163,660 | 175,598 |
| | | |
| **Cyfanswm** | **2,106,317** | **2,051,382** |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Roedd y gostyngiad yn y sylfaen adnoddau yn galw am benderfyniadau anodd, sy'n cael eu gwaethygu ym mhortffolio PADGOS gan yr angen i ddelio ag anghenion diweithdra a sgiliau mewn adegau o ddirwasgiad economaidd. Mae'r gyllideb yn wynebu'r penderfyniadau anodd hyn ac yn rhoi mwy o adnoddau yn y mannau lle mae'r angen mwyaf – yn enwedig i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc.

Cafodd y broses o ddyrannu cyllidebau ar draws portffolio APADGOS ei blaenoriaethu gan ddefnyddio nifer o feini prawf:

- Ymrwymiadau Cymru'n Un;
- Ymrwymiadau statudol a dan gontract;
- Mynd i'r afael â'r dirwasgiad; a
- Blaenoriaethau eraill y Gweinidogion.

O ganlyniad i'r broses hon, penderfynwyd diogelu Llinell Wariant yn y Gyllideb y Ddarpariaeth i Ddysgwyr, sy'n cynnwys Addysg Bellach, a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Addysg Uwch o'r arbedion o 1.6%. Yn unol â hyn, cytunwyd ar y cyllidebau canlynol:-

Tabl 2 : Dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb

| | 2009-10 | 2010-11 | % Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth i Ddysgwyr | 545,440 | 552,014 | 1.2% |
| Addysg Uwch | 423,660 | 429,510 | 1.4% |

Felly, ni chafodd dyraniadau'r gyllideb eu lleihau yn ariannol. Fodd bynnag, wrth bennu cyllidebau Addysg Bellach ac Uwch, cafodd y gofyniad i sicrhau effeithlonrwydd, a amcangyfrifir i fod oddeutu 5 y cant, ei gynnwys.

Ar gyfer Addysg Uwch, mae cyllideb 2010-11 yn cymryd y bydd y sefydliadau yn talu costau unrhyw gynnydd mewn cyflog neu gostau nad ydynt yn gyflogau, ac y bydd posibilrwydd i hyd at 2 y cant o'r gyllideb gael ei defnyddio i ariannu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r strategaeth newydd Er Mwyn Ein Dyfodol.

Mae cyllideb 2010-11 ar gyfer y Ddarpariaeth i Ddysgwyr yn cymryd y bydd darparwyr yn talu costau unrhyw gynnydd mewn cyflog neu gostau nad ydynt yn gyflogau, a hefyd unrhyw gynnydd yn nifer y myfyrwyr. Nid yw'r gyllideb hon yn cynnwys £19.743 miliwn o gyllid ychwanegol sy'n cael ei flaenoriaethu tuag at fesurau diweithdra ieuenctid. Mae fy swyddogion yn cyfrifo dyraniadau'r Ddarpariaeth i Ddysgwyr ar gyfer 2010-11 ar hyn o bryd, gan ddefnyddio'r gweithgarwch dysgu terfynol o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru[1] a CYBLD[2]. Bydd colegau ac awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu o hyn cyn diwedd Ionawr.

Y casgliad yw nad oes gostyngiad mewn cyllid, fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i sefydliadau addysg bellach ac uwch barhau i geisio bod yn effeithlon i ryddhau adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau rheng flaen, ac mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

**Leighton Andrews AC**
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

[1] Y system a ddefnyddir i gasglu data am ddysgwyr ôl-16
[2] Y system a ddefnyddir i gasglu data am ddysgwyr cyn 16